

DIOGELWCH TRAFNIDIAETH



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae 22 o bobl wedi cael eu lladd ar ffermydd yng Nghymru yn gysylltiedig â cherbyd sy'n symud, gydag o leiaf un person yn marw ym mhob un o'r deng mlynedd diwethaf

Mae cerbydau yn symud hefyd yn gyfrifol am nifer fawr o anafiadau amaethyddol difrifol, gyda'r mathau mwyaf cyffredin yn ymwneud â cherbydau naill ai'n bacio neu'n troi drosodd, neu bobl yn defnyddio beiciau cwad.



Er mwyn atal damweiniau ac anafiadau ar y fferm, dilynwch y cynghorion diogelwch isod:

- Sicrhewch fod yr holl lwythi yn sefydlog a diogel.
- Defnyddiwch offer codi sy'n addas ar gyfer y swydd ac a weithredir gan rywun sydd â'r hyfforddiant a'r arbenigedd angenrheidiol.
- Gorchuddiwch a marciwch bob ymyl miniog neu beryglus – cofiwch orchuddio neu dynnu atodiadau ar gerbydau cludo wrth eu defnyddio ar y ffyrdd.
- Meddyliwch am welededd cyffredinol ar y safle – a fyddai goleuadau ac arwyddion o gymorth?
- Anafiadau i'r pen yw achos mwyaf cyffredin o farwolaeth o ganlyniad i ddamweiniau yn ymwneud â beiciau cwad – gwisgwch helmed sydd yn ffitio'n iawn a heb ei ddifrodi bob amser pan fyddwch ar gefn cwad.

Gwnewch yn siŵr eich bod chi a'ch gweithwyr wedi cael hyfforddiant digonol ac yn gymwys i ddefnyddio peiriannau. Cysylltwch â Lantra i gael cyngor ar hyfforddiant ar 01982 552646.



A CHOFIWCH
BREC LLAW YMLAEN
+ GER NIWTRAL + PEIRIANT I
FFWRDD + ALLWEDD ALLAN
= CERBYD DIOGEL

I ddysgu mwy am iechyd a diogelwch ar y fferm, ewch i
www.hse.gov.uk/agriculture